



Y NEGESYDD

Hydref 2019

CYFARFODYDD

- Ydd Gwener, 4 Hydref** : Grŵp Darllen yn cyfarfod am 2 i drafod y gyfrol *Da Capo* gan Gareth Glyn.
- Ydd Sadwrn, 5 Hydref** : Bore coffi a siop Traidcraft o 10 tan 12 o'r gloch.
- Ydd Sul, 6 Hydref** : Oedfa Gymun am 10 dan ofal ein gweinidog.
Ysgol Sul y plant a'r ieuentid yn ystod oedfa'r bore.
Ysgol Sul yr oedolion wedi'r oedfa.
Oedfa hwyrol am 5:30 yng ngofal ein gweinidog.
- Ydd Sul, 13 Hydref** : Oedfa am 10 Gwasanaeth Diolchgarwch y plant a'r bobol ifanc
Oedfa hwyrol am 5.30 dan ofal ein gweinidog.
- Ydd Mercher, 16 Hydref**: Swper Cynhaeaf Cytun am 6 yn festri Emaus.
- Ydd Sul, 20 Hydref** : Bore am 10 o'r gloch Gwasanaeth dan ofal yr aelodau.
Ysgol Sul y plant a'r ieuentid yn ystod oedfa'r bore.
Ysgol Sul yr oedolion wedi'r oedfa.
Oedfa'r hwyr dan ofal y Parchedig Anna Jane Evans.
- Ydd Sul, 27 Hydref** : Oedfa am 10 dan ofal ein gweinidog.
Ysgol Sul y plant a'r ieuentid yn ystod oedfa'r bore.
Ysgol Sul yr oedolion wedi'r oedfa.
Oedfa Undebol hwyrol yn Emaus am 5.30 dan ofal ein gweinidog.

DYLETSWYDDAU

Llywydd y mis : Gwilym Owen
Cymun : Gwilym Owen
Alison Carden
Gwyn Eirug Davies
Elen Lansdown
Wrth y drws : Cathrin Williams
William Parry

BLODAU

Hydref 6 : Maureen Rhys
Hydref 13 : Maureen Rhys
Hydref 20 : Gwyneth Williams
Hydref 27 : Gwyneth Williams

Y Gadlas a cherddi eraill



gan

Dafydd Tecwyn Ellis

DONIAU DAFYDD


Gyda'i wreiddiau'n ddwfn ym mhridd Pen Llŷn, llenorion a beirdd yn ei linach, does ryfedd i Dafydd Tecwyn fanteisio ar y cyfleoedd a gafodd i ddatblygu ei sgiliau cerddorol a llenyddol ac i ennill clod a bri mewn meysydd celfyddydol.

Y Gadlas a cherddi eraill yw ffrwyth diweddaraf ei ddoniau, cyfrol o sonedau, telynegion a phenillion caeth a rhydd. Mae Dafydd yn cyflwyno'r gyfrol i'w chwirydd, Elin a Catrin, ac i'w fam, Valerie Ellis. Mae'r gyfrol hon hefyd er cof am ei dad, Tecwyn Ellis, a'i nain, Catherine Rhianwen Jones.

Dymuna Dafydd ddiolch yn fawr iawn i'w fam a'i chwirydd am eu cefnogaeth, ac i'r Prifardd Elwyn Edwards am ei addysg farddol. Mawr yw ei ddiolch hefyd i Argraffdy Ffrancon am eu gwaith hwythau.

Da Capo

HUNANGOFIANT
GARETH GLYN



Y GRŴP DARLLEN

Bydd y grŵp darllen yn cyfarfod dydd Gwener Hydref 4ydd am 2 o'r gloch. Y llyfr dan sylw fydd

Da Capo

gan Gareth Glyn.

Llyfr mis Tachwedd fydd

On the Red Hill gan Mike Parker

PROTEST

Bu rhai o ieuentid ac aelodau hŷn Emaus, yn cynnwys Casi ein gweinidog, yn y brotest yn erbyn **NEWID HINSAWDD BYD-EANG** a gynhaliwyd ym Mangor fel rhan o'r brotest fawr fyd-eang.



TRADCRAFT

Cynhelir y bore coffi a siop Traidcraft nesaf bore Sadwrn Hydref 5ed o 10 tan 12 o'r gloch.

Mae'r catalog newydd wedi cyrraedd, ac fe fydd cardiau Nadolig ar gael.

Mae croeso i bawb.

Mae Cytûn Bangor yn trefnu Swper Cynhaeaf yn Emaus ar Nos Fercher 16 Hydref am 6 o'r gloch
Croeso i bawb
a dewch â phlataid o fwyd i'w rannu.

DRAW, DRAW YN JAPAN

Fel arfer ar fore Sul bydd Dewi Llwyd yn cyflwyno'i raglen o bencadlys y BBC. ym Mangor. Ond fore Sul, Medi 22, cawsom syndod. Roedd Dewi a chynhyrchydd y rhaglen, Marian Ifans, yr ochr

arall i'r byd yn Japan, lle cynhelir Cwpan Rygbi'r Byd. Darlledwyd rhaglen hynod o ddifyr o Nagoya, dinas ar arfordir y Môr Tawel rhyw ddau can milltir o'r brifddinas Tokyo.





CODI'R HWYLIAU



Mae mis Medi yn fis o ddechreuadau. Dyma'r mis y bydd plant yn dechrau mewn ysgolion a dosbarthiadau newydd ac ieuentid yn dechrau ar gyfnod newydd yn y gwahanol golegau.

Felly hefyd yn Eglwys Emaus. A hithau'n ddechrau tymor newydd yn yr Ysgol Sul, fore Sul, Medi'r 8 fed cafwyd oedfa pob oed yn dwyn y teitl 'Codi'r Hwyliau' sef oedfa wedi ei threfnu gan ein gweinidog ac athrawon yr Ysgol Sul. Thema'r oedfa oedd dechreuadau newydd a chymrwyd at y rhannau rhagarweiniol gan blant ac ieuentid yr Ysgol Sul.

Roedd ein gweinidog wedi cyfansoddi dau emyn pwrpasol yn arbennig ar gyfer y gwasanaeth ar y thema arbennig yma.

Cafwyd hefyd ambell eitem gerddorol gan aelodau'r Ysgol Sul, ac yna roedd cyfle i bawb gymdeithasu dros banded, a'r tro hwn, yn y capel ac nid yn y festri y digwyddodd hyn.

Llongyfarchiadau i holl blant ac ieuentid Emaus a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau yn ystod yr haf.

Dymuniadau gorau i'r rhai sydd wedi dechrau mewn ysgol newydd ac i'r rhai sydd ar fin ein gadael am y Coleg.

Gwelwyd amryw o blant ac ieuentid yr eglwys ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst. Llongyfarchiadau mawr iddynt ar eu llwyddiant.

Y tymor hwn, bydd aelodau'r Ysgol Sul yn paratōi ar gyfer y Gwasanaeth Diolchgarwch ar Hydref 13 eg.



PYTIAU O'R BRIFWYL

Buasai'r Eisteddfod yn Llanrwst wedi bod dipyn tlotach heb ymdrechion rhai o aelodau Emaus! Buont yn cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau. Roedd rhai ohonynt yn rhan o'r Orsedd, eraill yn helpu ar amryfal stondinau ar y maes. Roedd llu ohonynt yn aelodau o wahanol gorau - yn ddynton ac yn ferched.

Bu dwy o'n horganyddion yn beirniadu rhai o'r cystadlaethau - y ddwy ohonynt wedi bod yn bennaeth Cerdd yn Ysgol David Hughes yn eu tro. Enid Griffiths oedd beirniad yr emyn dôn a Gwennant Pyrs hithau yn feirniad cerdd.

Unwaith eto, cipiodd Cai Fôn a Non ei chwaer, wyrion Beryl Davies Min Menai, sawl gwobr.

Doedd hi ddim yn syndod i weld Anwylyd Jones, Cae Meta, yn derbyn "**Sash Huw Ffash**" un diwrnod. Roedd hi'n edrych yn bictiwr!

Cymrodd Maureen Rhys ran mewn rhaglen i glodfori'r llenor Eigra Lewis Roberts.

Cafodd y ddwy chwaer Gwenno a Medi, genod Siân a Tomos Morgan, lwyddiant ar y piano.

Roedd Medi yn aelod o Ensemble Ysgol Tryfan - ynghyd â Gethin, mab Lowri Elis a loan, mab Eyllt Bryn Jones, a ddaeth i'r brig yn eu cystadleuaeth.

Bu cryn edrych ymlaen i weld y sioe **Te yn y Grug**. Roedd Heledd, merch Jennifer Thomas a Brychan, ei hŵyr, yn y cast.

CYFARFOD BLYNYDDOL MUDIAD CHWIORYDD UNDEB Bedyddwyr CYMRU

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n gweithio mor brysur i sicrhau llwyddiant cyfarfodydd blynyddol **Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru** yn ddiweddar, yn arbennig Jennifer, Alison a'r rhai a gyfrannodd at y te. Dwi hefyd yn gwerthfawrogi cyfraniad y bobl ifanc at oedfa'r hwyr ac i Nia, Enid, Valerie a Lucy am gyfeilio. Roedd pawb wedi mwynhau! Efallai eich bod wedi sylwi ar faner y Mudiad yn hongian yn y capel yn barod. Mi fyddwn yn dal gafael arni am ffwyddyn cyn ei throsglwyddo i Ruth Davies yng Nghaerdydd mis Medi nesaf.

Eleri Jones

DECHRAU AR EI GYRFA

Ein dymuniadau gorau i Gwenno, merch Marian Ifans, sydd yn dechrau ar ei swydd gyntaf efo **Copa**, ym myd y cyfryngau.

Graddiodd Gwenno ym Mhrifysgol Aberystwyth yn yr haf.

Mae'n braf deall bod Lloyd, brawd Marian, yn gwella ar ôl treilio cyfnod pryderus yn yr ysbyty.

CINIO CYNHAEAF

Cynhelir Cinio Cynhaeaf
yn festri Emaus

ar Ddydd Sadwrn, Hydref 12fed,
am 12pm.

Pris y tocynnau yw £5

Fe fydd yr arian yn mynd at waith
Caffi Deiniol.

Croeso cynnes i bawb.

*Archebwch eich tocynnau
gan Dilwen.*

EI LLUN RHWNG Y CLORIAU

Yn y gyfrol Hanes Menywod Cymru gan Catrin Stevens a gyhoeddwyd yn ddiweddar, hyfryd oedd sylwi ar lun o Dr Peggy Slater mewn clinic babanod yn Nhregarth yn y pumdegau.

Bu Dr. Slater yn aelod selog ym Mhenuel am flynyddoedd.

Bu'n feddyg plant yn yr hen Sir Gaernarfon a Gwynedd. Roedd hi ar flaen y gâd yn ei maes arbenigol ac yn uchel iawn ei pharch. Mae'n debyg y bydd llawer o aelodau hŷn Emaus yn ei chofio.



ARWYDDO BEIBL Y LLYWYDDION



**Pawb
gymrodd
ran yn
y
Gwasanaeth nos**

DIOLCH I JANE ROBERTS



Ar Fedi'r 8fed, fe ddiolchodd y gweinidog i Jane Roberts am ei gwaith yn glanhau adeilad y Capel.

'Da ni am ddiolch a dymuno'n dda i Jane sydd wedi bod wrthi ers dros ddeng mlynedd ar hugain yn glanhau adeilad y Capel - Penuel yn gyntaf ac Emaus erbyn hyn. Da chi wedi clywed y chwedl am Olwen o'r Mabinogion - i bobman yr oedd hi'n mynd, roedd yna feillionen wen yn tyfu yn ôl ei throed. Ac mae'r un peth yn wir am Jane. Mae hi wedi mynd drwy'r adeilad o wythnos i wythnos gan adael glendid persawrus ar ei hôl. Yn ddistaw bach mae hi'n gweithio. Dydy hi ddim yn un i wneud ffys na thynnu sylw ati hi ei hun, ond da chi'n gweld lle mae hi wedi bod - y cyfan yn lân ac yn hyfryd at ein defnydd ni. Diolch i chi Jane am eich gwaith cyson a ffyddlon i Dduw ac i ninnau fel eglwys a diolch i Richard am yr holl gefnogaeth a roddodd i Jane gyda'r gwaith.

ATGOFION MRS. MOP 1938 - 2019

Cof plentyn ifanc iawn yn cerdded yn llaw fy modryb ac yn falch o gario cadach hel llwch yn y llaw arall - ac nid dwster melyn crand fel yn ein dyddiau ni ond darn o hen ddilledyn. Cerdded wrth y wal am fod y ffordd mor gul a fy modryb, sef Mary Williams, yn cario bwcedaid o ddŵr cynnes, paraffin a.y.b, am rhyw ddau gan llath i lanhau a golchi steps capel bach y Tabernacl (Annibynwyr), Rhostryfan. Roedd yn cadw pregethwyr yn ôl arferiad y dyddiau hynny - rhai yn dod 'pnawn Sadwrn ac yn aros hyd fore Llun - a'r gydnabyddiaeth oedd hi'n ei gael oedd swllt a chwech y Sul. Rhai blynyddoedd wedyn cymrodd fy nghyfnither, sef Gladys Jones, y cyfrifoldeb o fwydo cennad y Sul a glanhau Libanus, capel y Bedyddwyr, Clwt y Bont, Deiniolen. Bron yn nghynffon y cyfnod hwnnw roedd fy chwaer Myfanwy Jones yn gwneud cinio neu de, fel bo'r angen, a glanhau capel Methodistiaid Cwm Coryn a symud wedyn i gapel Pencoed ar gwr y Lôn Goed. Yn 1989 tua diwedd gweinidogaeth y Parchedig Ifor Williams y gwnes i gymryd at y gwaith o gadw llwch i lawr ym Mhenuel ar ôl i hysbysiadau fod yn y papur a neb wedi ymgeisio. Erbyn hyn mae popeth ar gyfer glanhau wedi dod yn gyfleus, ac yn yr adeilad yn barod. Diolch i'r criw o ferched sydd yn dod pob blwyddyn i wneud y glanhau blynyddol a dangos diddordeb.

Jane Roberts


GAIR GAN Y GWEINIDOG

Dechrau Da

Fel Cristion, nid yw credu fod y byd wedi dechrau gyda ffrwydrad mawr ddim yn broblem, ac nid yw credu fod bywyd dynol a bywyd natur wedi esblygu dros filiynau o flynyddoedd ddim yn broblem i mi chwaith. Yr hyn sydd yn amhosib i mi gredu yw bod y cyfan wedi digwydd ar hap a damwain. Pa ystyr a phwrpas y gellir ei roi i fyd sydd wedi digwydd yn ddamweiniol?

Mae awdur Genesis yn ein gwahodd ni i feddwl am fyd sy'n dechrau o gariad ac o fwriad Duw nid trwy ddamwain. Mae'n fyd sy'n llawn patrwm a chydbwysedd, lliw a rhyfeddod. Mae'r ddynoliaeth yn cael ei darlunio fel pobl sy'n rhannu tebygrwydd gyda Duw ac yn cael eu gwahodd i fyw mewn perthynas ag ef a chyda'i gilydd. Mae'r ddynoliaeth angen arweiniad er mwyn gwybod sut i fyw ac rydym yn cael gwahoddiad i gymryd cyfrifoldeb am ein gilydd ac am y blaned mewn partneriaeth gyda Duw. Dyma ffordd o feddwl sy'n rhoi ystyr a phwrpas i fywyd pob dydd. Nid yw awdur Genesis yn ceisio profi bodolaeth Duw i ni, dim ond yn rhoi gwahoddiad i ni weld y byd a bywyd drwy ei sbectol e. Does ganddo fe ddim amheuaeth o gwbl am fodolaeth y Duw mawr a rhyfeddol y tu ôl i'r cyfan.

Er gwaethaf y problemau sy'n codi mewn bywyd, fe'n gwahoddir ni gan awdur Genesis i ddechrau drwy werthfawrogi a dathlu'r bydysawd a'r ddynoliaeth fel creadigaethau da Duw. Peidiwn â gadael i newyddion drwg y dydd guddio'r harddwch a'r daioni sydd o'n hamgylch ni. A hithau'n fis Diolchgarwch, gadewch i ni ailddarganfod rhoddion Duw o fyd hardd a bywyd rhyfeddol ac ymateb iddo mewn diolch a mawl.



DATHLU'R AUR

*Llongyfarchiadau
calonnog
i
Menna a Gareth
Ffowc Roberts
ar dathlu
hanner
can mlynedd
o fywyd priodasol
yn ystod yr haf.*

1969 - 2019

LLEFARU



Enillodd Morgan Siôn Owen, mab Carol a Dylan Owen, y wobwr gyntaf am lefaru darn o'r Ysgrythur. Darn addas i Morgan - **Ar y ffordd i Emaus**. Cafwyd cyflwyniad arbennig ganddo.

YSGOLORIAETH BRYN TERFEL



Llongyfarchiadau mawr i Cai Fôn, mab Bryn, a nai Beryl Davies ar gael ei ddewis i gystadlu am **Ysgoloriaeth yr Urdd Bryn Terfel**. Cynhelir y gystadleuaeth nos Wener, Hydref 11 yn Neuadd Goffa'r Barri.

Dymuniadau gorau iddo.

YN MEDDWL AMDANOCH

Da oedd gweld Enid Owen wedi gwella yn ddigon da i fynychu Emaus yn ddiweddar ar ôl ei arhosiad yn yr ysbyty.

Cofiw'n am Beryl Davies, Min Menai, sydd heb fod yn hanner da yn ddiweddar.

Cafodd Anwlyd Jones, Cae Meta, ddamwain pan oedd ar ei gwyliau, a thorri ei harddwn.

Dymuniadau gorau i Bet Eirug Davies sydd bellach allan o'r ysbyty ac am dreulio cyfnod ym Mhlas Hedd.

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Enid Roberts ym Mhlas Hedd, Bessie Jones ym Mhlas Pengwaith, Llanberis, Muriel Edwards ym Mhlas Garnedd a Megan Price Morris yng Nghartref Gofal yr Wyddfa, Llanberis.

Mae Dilys Parry Williams, Tal y Cae yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

Treuliodd Huw, mab Branwen Niclas gyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn ag Olwen Davies, Eithinog. Bu farw Dilys, chwaer Olwen, ym Machynlleth yn ddiweddar a hithau newydd ddatlu ei phenblwydd yn 95oed.

Cydymdeimlwn a Bet Eirug Davies, Bryn Adda a gollodd ei brawd yng nghyfraith - Alun Eirug Davies yn Aberystwyth.

Meddyliwn yn ddwys iawn am Mrs Enid Roberts, Plas Hedd, a'r teulu. Bu farw ei mab ieuengaf, Barry, yn ddisymwth yn ystod yr haf.

AR Y SGRIN

Tybed gafodd rhai o'n haelodau gip ar Gwyn, mab Helen a Gwilym Owen Tal y Cae, ar y teledu yn ystod cyfnod y Proms o Neuadd Albert? Roedd o'n rhan o Gerddorfa Aurora sy'n chwarae pob darn ar eu cof. Dipyn o gamp! Roedd y gerddorfa yn mynd ar daith i Bremen, yn dilyn eu perfformiad yn Llundain.

Bu Gwyn yn brysur yn ystod yr eisteddfod yn Llanrwst yn chwythu'r utgorn yn un o aelodau egniol **Band Llareggub** - ac yn aelod o'r pumawd pres A5.

CAEL EIN SWYNO

Cawsom ein swyno yn Emaus un bore Sul ym mis Medi gan ferch ifanc wrth yr organ. Dyma'r cyfle cyntaf i Carys, merch Lucy Clement Evans, ddangos ei dawn fel organyddes.

LLAIS CYFARWYDD

Tybed pwy glywodd llais cyfarwydd ein gweinidog, Casi, yn trafod ei ffydd ar Radio Cymru un bore Sul yn ystod yr haf?

Y TEULU YN CYNHYDDU

Llongyfarchiadau i Alwen Nicholson am ddod yn nain unwaith eto. Ganed mab Bach, Twm, i Lois ei merch a'i chymar yn ddiweddar. Mae Ioan, ei frawd mawr, wrth ei fodd.

Mae Elsie Parry yn hen nain unwaith eto, a'i merch Marian yn nain i Harri, mab bach Rebecca Vickers a'i gwr. Yn ôl y son mae ei chwaer fawr Ffion wrth ei bodd yn ei fagu.

Mae Rebecca yn wyres i Elsie ac yn ferch i Marian.

- Ein dymuniadau gorau iddynt.

GADAEI AM Y COLEG

Llongyfarchiadau i'r hogiau a lwyddodd yn eu arholiadau Lefel A - a phob hwyl iddynt.

Dewisodd Gruffydd, mab Gwyn Eurig Davies fynd i Met Caerdydd i astudio Sports Management a'i obaith ydy chwarae i un o dimau rygbi'r Brifysgol.

Mae Ioan, mab E sylt Bryn Jones, wedi mynd dros y ffin i'r Liverpool Institute of Performing Arts (LIPA) i astudio Cerddoriaeth gan ganolbwyntio ar y gitâr a pherfformio.

Penderfynodd Gethin, mab Lowri Elis fynd ymhellach a throi am Brifysgol Leeds i astudio Cerddoriaeth. Yno, wrth gwrs aeth Gwenno, merch Sian a Tomos Morgan, er ei bod ar hyn o bryd yn treulio blwyddyn ym Mhrifysgol Texas.

Mae Tomos, mab Casi, newydd ddechrau ar gwrs hyfforddi i fod yn athro cynradd ym Mhrifysgol Bangor.

Yn ogystal, bu rai o ieuentid ieuangach Emaus yn paratoi ar gyfer arholiadau TGAU. A chawsant ganlyniadau canmoladwy iawn.

- Da iawn, chi.

Rhaghysbysiad

Cynhelir cyfarfod dan nawdd y Grŵp Gweithredu i drafod ar Dachwedd y 14eg am 7 o'r gloch.


Y siaradwr fydd Dylan Morgan, a bydd cyfle i glywed am rai ffyrdd y gallwn greu dyfodol mwy gwyrdd i'r blaned.

ADRODDIAD CYFARFOD Y CHWIORYDD YN EMAUS

Llongyfarchiadau calonnog iawn i Eleri Lloyd Jones ar ei dyrchafu'n Llywydd Mudiad y Chwiorydd. Cafwyd cyfarfodydd hynod iawn ddydd Mercher 11fed pan oedd chwiorydd wedi ymgynnull o bob rhan o Gymru. Yn dilyn y rhannau arweiniol dan ofal Siân Arwel ac Elizabeth Roberts, cafwyd adroddiadau gan yr Ysgrifennydd, Bonni Davies, y Trysorydd, Hazel Williams a darllenwyd adroddiad Glyn Nest gan y Llywydd, Sarah East. Cyflwynwyd Eleri i'r gynulleidfa gan Siân Arwel cyn arwyddo'r Beibl a throsglwyddo Tlws Nanette. Offrymwyd Yr Urdd Weddi gan Jill Tomos a dygwyd cyfarchion gan Lywydd y Senana, Ann Lapage. Yna cyflwynwyd yr Is-lywydd, Ruth Davies gan Linda Gruffudd. Prin fod angen cyflwyno Ruth i'r gynulleidfa oedd yn Emaus ar y prynhawn gan ei bod wedi'i magu yn yr eglwys ac wedi bod yn aelod ffyddlon yno gyda'i theulu am ddeugain mlynedd. Traddododd Eleri anerchiad lewyrchus iawn ar y thema "Cwlwm Cariad". Tynnwyd ein sylw at y math o gariad ddangosir inni gan Dduw. Mae'n ein clymu am byth fel cwlwm annatod neu fel gwialen i gynnal planhigyn gwan yn yr ardd. Mae disgwyl i'r dilynwyr ddangos y cariad yma drwy wasanaeth. Yn dilyn te blasu iawn a baratowyd gan

chwiorydd Emaus, datblygwyd y syniad yma o wasanaeth yng nghyfarfod yr hwyr. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan ieuencid yr eglwys - Morgan, Eluned a Tesni, yna eitemau cerddorol gan Aron a Morgan, Cian a Carys a Luned gyda chyfweliadau bob yn ail rhwng Eleri a Casi Jones, ein gweinidog. Rhoddodd gipolwg ar waith y **Grwp Gweithredu** sefydlwyd yn Emaus. Bu Gwen Aaron yn sôn am ei gwaith gyda **Cruse** - gofal mewn galar a bu Sue Eckersley sydd yn rhan o grwp sy'n rhoi lluniaeth i rai digartref ym Mangor a'r cylch yn son am y gwaith. Cafwyd cyfawnswm anrhydeddus o £544 rhwng gwerthu'r tocynnau te a'r casgliad pnawn a nos. Anfonir yr arian i Gartref Glyn Nest. Roedd y diwrnod yn fendithiol iawn ac yn gyfle i gyfarfod â ffrindiau o bob cwr o Gymru.

---00000---



Cwlwm

Mae'r rhifyn diweddaraf o Cwlwm wedi cyrraedd. Dosberthir dros yr wythnosau nesaf. Mae'r pris wedi codi i 50c.

DIOLCH

Dymuna Nesta Williams ddiolch i'r gweinidog a'i chyd-aelodau yn Emaus am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth tra bu yn yr ysbyty ac mae'n gobeithio dychwelyd i'n plith cyn hir.

Diolch yn fawr i Ann a Gareth Roberts am gasglu a chydlynu'r wybodaeth ar gyfer y rhifyn yma.

XXXXXX

Dylid gyrru'r holl wybodaeth ar gyfer rhifyn Tachwedd y Negesydd

i
Cathrin Williams

e-bost:

cathrin.williams@gmail.com

erbyn.Hydref.20fed, fan.bellaf.

Ymddiheuriad a Diolch

Gan fy mod wedi bod i ffwrdd yn ystod yr haf, ni ddiolchwyd i Siân Arwel am drefnu'r blodau ar gyfer angladd Gwilym Owen. Mae'n barod bob amser i gynorthwyo ac rwy'n ymddiheuro na wnaed hyn yn y rhifyn diwethaf o'r Negesydd.

Diolch hefyd i Glenda Jones am roi'r blodau ddiweddd Medi. Mae'r un diolch i bawb sy'n rhoi blodau o Sul i Sul.



Bydd rhestr newydd yn ymddangos yn ystod y mis ac fe fydd Kath a minnau'n ddiolchgar iawn i'w gweld yn cael ei llenwi. A fyddwch cystal a rhoi eich enw llawn ar y rhestr, gan fod amryw un gyda'r un enw cyntaf. Fe fydd hyn yn osgoi unrhyw gam-ddealltwriaeth!

Diolch,
Meriel

GWEDDI DROS STREIC YR HINSAWDD

Paid gadael i neb dy ddibrisio am dy fod di'n ifanc. Bydd yn esiampl dda i'r credinwyr yn y ffordd rwyf ti'n siarad, a sut rwyf ti'n byw, yn dy gariad at eraill, dy ffydd a'th fywyd glân.

1 Tmotheus 4:12

Dduw pawb o bob oed,
Diolch iti am y streicwyr hinsawdd ifanc.
Nid ydym yn dibrisio eu hieuenctid
ond yn dilyn eu hesiampl.

Diolch iti eu bod yn rhoi eu beiros a'u papur i lawr -
I adael eu dosbarth a'u caeau chwarae,
I geisio cyfiawnder ar gyfer y cartref sy'n gyffredin inni.
Helpa ni i edrych ar ein bywyd ein hunain,
Ar yr hyn y dylem ollwng gafael ynddo, yr hyn sy raid inni ei adael ar ôl,
I geisio cyfiawnder ar gyfer y cartref sy'n gyffredin inni.

Diolch iti am eu hysbryd, na ellid mo'i reoli,
Am y traed sy'n rhydd i gamu dros balmentydd,
Am blacardiau wedi eu codi'n uchel a lleisiau sy'n gwrthod cael eu tawelu.
Gosod ynom ninnau'r ysbryd sy'n gorlifo;
Ysbryd sy'n ein cyffroi ninnau i gamu a gweithredu;
Ysbryd sy'n ein hachosi ninnau i godi llais dros gyfiawnder hinsawdd.

Diolch iti am ffydd a gobaith y streicwyr hinsawdd ifanc -
Ffydd y gall y sefyllfa bresennol newid;
Gobaith am y dyfodol fydd yn etifeddiaeth iddynt;
Ffydd y gellid gwarchod cymunedau tlawd rhag
effeithiau difrifol yr argyfwng hinsawdd;
Gobaith y gall pawb ffynnu yn y dyfodol.

Dduw pawb o bob oed,
Helpa ni i edrych ar esiampl yr ifanc.
Gad inni sefyll mewn undod gyda hwy
mewn cariad, ysbryd, ffydd a gobaith.

Amen.

Caerol M. Jones